Cenn@d

MEHEFIN 26 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 174

# Ordeinio a Sefydlu yn Llanelli

Yn Llanelli, ddydd Sadwrn, 1 Mehefin, cynhaliwyd oedfa arbennig i ordeinio Andrew Settatree a'i sefydlu'n weinidog i Eglwys Fedyddiedig Hope–Gobaith. Eglwys ddwyieithog yw hon a ffurfiwyd drwy uno eglwys Gymraeg Bethania ac eglwys Saesneg Emmanuel yn ardal y Morfa yn 2016. Mae'r eglwys yn dal i ddefnyddio'r ddau adeilad er mai yng nghapel Bethania y cynhelir y brif oedfa ar fore Sul, ac yno y cynhaliwyd yr oedfa ordeinio.

Wedi ei fagu yn Hwlffordd, mae Andrew'n dychwelyd i'r de wedi dros bymtheng mlynedd o wasanaeth Cristnogol yn y gogledd, yn wreiddiol fel Gweithiwr Ieuenctid gyda chynllun Efe yn Nyffryn Peris a Throbwynt yn Llŷn ac Eifionydd, ac yna fel Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Llŷn ac Eifionydd ac yn fwy diweddar ym Mangor. O'r cyfarfyddiad cyntaf a gawsom ag ef yng nghynllun Efe ganol 2008, roedd yn amlwg fod gan Andrew faich dros rannu'r Efengyl a chariad at Grist a'i gwnâi'n weithiwr ffyddlon a chywir. Braint fu cael cydweithio ag ef, a llawenydd mawr fu gweld ei ymdeimlad o alwad i fod yn weinidog yn gwreiddio ac yn dyfnhau dros y blynyddoedd diwethaf. Wedi cyfnod o gyfuno'i waith ym Mangor ag astudiaethau dan nawdd Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, derbyniodd alwad i Lanelli, a chychwynnodd ei waith yno ddechrau Mai eleni.

Roedd yr oedfa ordeinio yng ngofal y Parchg Huw Roberts a'r addoliad dan arweiniad Sungsu a Nana, cenhadon o Dde Corea sy'n gwasanaethu'r eglwys, a Menna Machreth. Offrymwyd gweddïau gan gyn-weinidog yr eglwys, y Parchg Paul Smethurst, a'r Parchg Rhys Llwyd. Mae'r cysylltiadau'n ddiddorol: nid yn unig y mae Paul yn ffrind i deulu Andrew, ond mae ei ferch, Hannah, yn cydweithio â Rhys yn eglwys Caersalem, Caernarfon.

Wedi i Mr Jonathan Powell adrodd hanes yr alwad, cafwyd gan Andrew yn ei ymateb dystiolaeth i'r alwad bersonol a brofodd yn fachgen ifanc i gredu yn Iesu Grist a'i ymdeimlad o alwad i fod yn weinidog. Estynnwyd croeso iddo ar ran eglwysi



Y Parch Eirian Wyn gyda'r darpar weinidog, Andrew Settatree

Llanelli gan y Parchg David Jones, a darllenwyd o'r Ysgrythur gan y Parchg John Pritchard a Mr Peter Taylor. Cafwyd cyfarchion ar ran Coleg y Bedyddwyr gan un o gyd-benaethiaid y Coleg, y Parchg Ed Keenan, cyn i'r Parchg Eirian Wyn, Arolygydd Cymanfa Bedyddwyr Gorllewin Morgannwg, lywio gweithred ffurfiol yr Ordeinio. Yna cyflwynodd y Parchg Rosa Hunt, cyd-bennaeth arall y coleg, anerchiad yn seiliedig ar y darlleniadau o Ioan 10 oedd yn annog Andrew i ymroi i waith bugail i braidd Duw o fewn yr eglwys.

Roedd yn brynhawn arbennig iawn, a braint fawr oedd cael bod yno ar achlysur mor arbennig a phwysig i Andrew a'r eglwys.

Bydd cyfeillion Andrew yn y gogledd yn gweld ei eisiau yn fawr, ond rwy'n sicr eu bod hwy, fel finnau, yn dymuno'n dda i iddo ef, a'i wraig, Hev, a'u meibion, Cai a Gethin, ar ddechrau'r cyfnod newydd hwn. Gweddïwn am fendith Duw arnynt hwy fel teulu ac ar yr eglwys.

*John Pritchard*
*Llanberis*

## Trefniadau cyhoeddi *Cenn@d* dros yr haf

Mae rhifyn newydd o *Cenn@d* yn mynd yn fyw ar y we bob bore Mercher - a hynny 52 wythnos y flwyddyn. Mae'n dda medru rhannu'r newyddion diweddaraf o fyd Cristnogol Cymru a thu hwnt gyda'n darllenwyr, gan gadw'r newyddion hynny mor gyfoes â phosib.

Fodd bynnag, fe basiwyd mewn pwyllgor diweddar o fwrdd rheoli *Cenn@d*, er mwyn ysgafnhau ar bwysau'r tîm golygyddol dros gyfnod yr haf, y byddai 6 rhifyn dros gyfnod y gwyliau ysgol yn rhifynnau llai o ran cynnwys. Bydd y 6 rhifyn rhwng 24 Gorffennaf 24 a 28 Awst yn rhifynnau 4 tudalen yn lle'r 8 tudalen arferol, a hynny mewn cyfnod lle mae newyddion eglwysig yn dawelach prun bynnag. Bydd y rhifynnau yma'n mynd yn fyw ar ein gwefan yn yr un modd ag arfer ar fore Mercher.

Gobeithiwn y bydd i'r trefniant hwn ganiatáu ychydig o seibiant i'r golygyddion, ond gan sicrhau bod rhifyn yn dal i ymddangos bob wythnos. Bydd y rhifynnau o 4 Medi ymlaen yn ôl i'w maint arferol o 8 tudalen.

Gan ddiolch i'n holl ddarllenwyr am eich diddordeb yn *Cenn@d*.

O'r Llwyfan
Tudalen 3

Her ŵyr i gofio 'mam-gu' anhygoel
Tudalen 5

O'r galon
Tudalen 5

# Gweddi dros yr Etholiad Cyffredinol gan Gymdeithas y Beibl



Dduw pob llywodraeth, anfon gweithwyr i faes cynhaeaf bywyd gwleidyddol.

Galw ar dy bobl – nid yn unig y rhai sy'n honni eu bod yn dy adnabod, ond y rhai sy'n adnabod dy lais ac yn gwybod dy enw.

Galw'r rhai na fyddant yn gwasanaethu dau feistr, y rhai a fydd yn dewis teyrnas dros lwyth, y rhai nad oes ganddynt gywilydd o'r efengyl a'r rhai a fydd yn siarad dros y rhai na allant siarad drostynt eu hunain.

Galw'r rhai a fydd yn ceisio cyfiawnder, yn annog y gorthrymedig, yn amddiffyn achos yr amddifad, ac yn pledio achos y weddw.

Galw'r rhai sy'n ceisio cymodi yn fwy na gwahanu, y rhai sy'n ceisio cydweithredu yn fwy na chystadlu a'r rhai sy'n ceisio heddwch yn fwy na grym.

Galw'r rhai fydd yn dewis dy ogoniant dros hyrwyddo'u hunain a'r rhai a fydd yn dewis y gwirionedd dros hwylustod.

Galw'r rhai fydd yn gwrando ar y llef ddistaw fain yn fwy na megaffon y cyfryngau a'r rhai a fydd yn gofalu am y lleiaf, yn hytrach nag ymgrymu i'r mwyaf.

Galw'r rhai sy'n dod o hyd i'w hunaniaeth a'u diogelwch mewn etholiad dwyfol yn hytrach nag etholiad gan ddynolryw, y rhai y mae eu dinasyddiaeth yn y nefoedd, y rhai sydd a'u prif deyrngarwch i frenin arall.

Galw'r rhai na allant beidio â siarad am y rheswm tu ôl i'r gobaith sydd ganddynt – y rhai sy'n gwybod bod Dy ras yn cwmpasu eu methiannau.

Galwch allan fyddin a fydd yn ymladd nid ag arfau'r byd hwn, ond â nerth grymus Dy deyrnas heddychlon. Amen.

# #TeamBev – cerdded yn y Bannau er budd Ymchwil Cancr

Dros y penwythnos diwethaf, fe fu criw o wyth ohonom fel staff swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn cymryd rhan mewn taith hanner marathon a marathon llawn ar hyd Bannau Brycheiniog i godi arian ar gyfer Cancer Research UK.

Roedd y daith gerdded hon er cof annwyl am Bev, diweddar wraig Neil Poulton, a fu farw o gancr ychydig flynyddoedd yn ôl.

Dyma eiriau Neil, ein Pennaeth Stadau, wedi iddo gerdded y 26 millitir o Dal-y-bont ar Wysg i gyffiniau Pen y Fan a'r cronfeydd dŵr uchaf yno ac yn ôl: 'Her enfawr, a hynny'n amlwg o'r pothelli a'r traed blinedig, ond diwrnod gwerth chweil. Roedd hi'n fraint cael cerdded gyda fy nghyd-weithwyr er budd achos mor deilwng ac er cof am fy ngwraig annwyl Beverley. Rwy'n falch iawn o'r brwdfrydedd a'r dyfalbarhad a ddangoswyd gan bawb.'

Yr ieuengaf ar y daith oedd Rhian Melhuish, sy'n gweithio yn yr adran weinyddol ac yn gyfrifol am osod ein holl gyhoeddusrwydd ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol: 'Am brofiad arbennig iawn! Joiais i'r golygfeydd a'r her yn fawr. Er iddi lawio ambell waith, roeddwn yn falch iawn o weld yr haul yn tywynnu hefyd! Dwi'n falch iawn o fod yn rhan o dîm cefnogol ac elusennol. Hoffwn ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu at ein taith fawr.'

Rydym ni eisiau diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu mor hael at yr achos yma sydd wrth galon cymaint ohonom. Casglwyd tua £3000 hyd yma drwy ymdrech y pedwar fu'n cerdded y marathon llawn: Neil Poulton, Owain Hughes, Nan a Huw Powell-Davies, a'r pedwar fu'n cerdded 13 milltir yr hanner marathon: Andy Britton, Joanna Thomas-Wright ac Eleri a Rhian Melhuish.

Os hoffech gyfrannu at ein taith elusennol fawr i gefnogi Cancer Research UK, ewch i'n tudalen JustGiving: [https://fundraise.cancerresearchuk.org/team/team-bev-6](https://fundraise.cancerresearchuk.org/team/team-bev-6)

Fel arall, sganiwch y QR i ymweld â'n tudalen JustGiving.




Chwech o'r tîm ar ôl cwblhau eu teithiau: Joanna, Andy, Neil, Nan, Owain a Huw



Eleri a'i merch Rhian wedi cwblhau'r hanner marathon



Andy a Joanna gyda'u medalau

# O'r Llwyfan

## Wynebau Newydd

### Cyfreithiwr Mygedol

Mewn cyfarfod o Gyngor Unedig UBC a gynhaliwyd ym mis Ebrill, penodwyd yr Athro Iwan Davies fel Cyfreithiwr Mygedol yr Undeb. Bu Iwan yn Athro Cyfraith Fasnachol a Phennaeth Adran y Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe ac yn fwy diweddar, rhwng 2018 a 2022, yn Is-ganghellor Prifysgol Bangor. Mae'n arbenigo ar Eiddo Deallusol, yn Gymrawd Gwadd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, yn ogystal â chyflawni nifer o swyddogaethau eraill. At hynny, mae'n aelod ffyddlon yn Eglwys Carmel, Pont-lliw, ac yn bregethwr lleyg cydnabyddedig yng Nghymanfa Gorllewin Morgannwg. Mae Iwan yn fab i'r diweddar Barchg Islwyn Davies, Cyn-ysgrifennydd Cyffredinol UBC, ac yn briod â Katherine. Rydym yn dra ffodus o'i wasanaeth ac estynnwn groeso cynnes iawn iddo.



Yr Athro Iwan Davies

### Cryfhau Tîm Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru

Mae nifer o aelodau eglwysi UBC eisoes wedi dod i gysylltiad naill ai â Dr Christian Tucker-Williams neu â Mrs Helen Wyn wrth geisio sicrhau cyngor am faterion sy'n ymwneud ag eiddo, gweithredoedd ac ymddiriedolaethau. Bellach, gyda'r cynnydd parhaus yng ngwaith y Gorfforaeth, penodwyd Cydlynydd ychwanegol, sef Mrs Llinos Penfold. Brodor o Sir Benfro yw Llinos a chyn iddi ymddeol bu'n gweithio fel athrawes ymgynghorol. Mae'n aelod ffyddlon yn Eglwys Bethel, Mynachlog-ddu, ac wedi gwasanaethu fel athrawes ysgol Sul a Llywydd y Senana. Yn 2018 bu ar daith UBC i Nepal i ymweld â rhai o brosiectau'r BMS. Bydd Llinos yn dechrau yn y swydd ym mis Gorffennaf ac edrychwn ymlaen at gydweithio hwylus.

### Momentum

Cynhaliwyd diwrnod arbennig yng Nghanolfan Halliwell, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, ddydd Sadwrn, 8 Mehefin, mewn partneriaeth â Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd, y BMS a Chymanfa Bedyddwyr De Cymru. Roedd tua 200 o bobl yn bresennol a chafwyd diwrnod hynod fendithiol yng nghwmni ein gilydd. Thema'r diwrnod oedd 'Geiriau Dynamig mewn Byd Dynamig'. Y siaradwyr gwadd oedd Dr Andrew Ollerton, Cymdeithas y Beibl, a chynhaliwyd seminarau o dan arweiniad Dr Arfon Jones, a rannodd ei brofiad yn paratoi beibl.net; Dr Stephen Roberts o Goleg y Bedyddwyr, Caerdydd, a soniodd am ddiwylliant y byd cerddorol modern, a'r Parchg Maggie Rich, a siaradodd am y gwaith a gyflawnir gan Gaplaniaid Anna, sef caplaniaeth ar gyfer pobl hŷn. Yn ogystal, cawsom gwmni cynrychiolwyr o'r BMS, Parchg Danni Worley, Dolgellau, Parchg Nick Bradshaw, Cymanfa Dwyrain Morgannwg, a Chyd-benaethiaid Coleg y Bedyddwyr, sef y Parchg Ddr Rosa Hunt a'r Parchg Ddr Ed Kaneen.



Mrs Llinos Penfold

### Cynadleddau'r Undeb 2024

Cynhelir y Cynadleddau Blynyddol eleni yn y Groes-goch, sir Benfro, ac yn Sarn, y Drenewydd. Mae ein diolch yn fawr i Mr Bill Davies a'r Parchg Tim Moody am eu harweiniad cadarn a doeth dros y flwyddyn ddiwethaf fel Llywyddion yr Adrannau perthnasol o'r Undeb. Deisyfwn fendith Duw ar y Parchedig Geraint Morse a'r Parchedig Maggie Rich a fydd yn cael eu hurddo fel ein Llywyddion newydd mewn oedfaon arbennig yn ystod y cynadleddau. Boed iddynt dderbyn o nerth a bendith yr Arglwydd.

### Adroddiad 2041

Treuliwyd llawer o amser yn ystod y misoedd diwethaf yn ystyried goblygiadau Adroddiad 2041 sy'n amlinellu sefyllfa debygol eglwysi'r Undeb ymhen rhyw ugain mlynedd a'r modd y gellir ymateb i'r her sydd yn ein hwynebu. Cynhaliwyd cyfarfodydd arbennig gyda phob Cymanfa er mwyn cyflwyno cynnwys yr adroddiad, ynghyd â'r argymhellion, a bu hynny'n destun trafod yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill. Yn dilyn ymweliadau pellach â'r Cymanfaoedd, mynegwyd parodrwydd mewn egwyddor i greu Sefydliadau Corfforaethol Elusennol Rhanbarthol er mwyn sicrhau cyrff a fydd yn addas ar gyfer cefnogi gwaith cenhadol y dyfodol. Mae ein dyled yn fawr i'r Athro Iwan Davies am ei arweiniad yn y mater hwn ac edrychwn ymlaen at weithredu'r camau nesaf yn y misoedd sydd i ddod.

Afraid yw dweud nad ydym yn byw mewn cyfnod dibryder. Mae'n fyd rhyfelgar a dialgar, mae tlodi ar gynnydd yn ein cymdeithas a'r tirlun ysbrydol yn newid yn gyflym y tu hwnt i bob dirnadaeth. Yn naturiol, mae hyn oll yn destun gofid i bawb, ond ein cyfrifoldeb fel Cristnogion yw ymateb yn adeiladol ac yn egnïol i her ein cyfnod. Dyma ein hamser a'n cyfle i dystio'n eofn fel disgyblion i'r Arglwydd Iesu. Nid oes unrhyw arlliw y bydd y patrwm presennol o ddirywiad yn newid yn y tymor byr er gwaethaf ein hymdrechion clodwiw. Eto i gyd, ein dyletswydd a'n cyfrifoldeb yw dal ati i ddirnad ewyllys Duw a chanolbwyntio ar y gwaith sydd o'n blaenau. Yn un o'i bregethau mae'r Archesgob Oscar Romero yn disgrifio Cristnogion fel 'proffwydi'r dyfodol nad yw'n eiddo i ni', gan ein hatgoffa 'mai gweithwyr ydym ac nid y Pen Adeiladydd'.

Ac felly, mewn ysbryd o wasanaeth diymhongar, ymddiriedwn bob ymbil ac ymdrech i ddwylo diogel ein Tad nefol gan fanteisio ar bob cyfle i gyflawni gwaith y Deyrnas.

*Judith Morris*

# Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Fe gynhelir Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru eleni yn Neuadd yr Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth. Cymanfa dros gyfnod o noson a diwrnod fydd hi eleni, a hynny o dan lywyddiaeth y Parch. Aneurin Owen. Bydd cyfle i'r cynrychiolwyr aros dros nos ar 8 Gorffennaf, a chyfle i bawb i ymuno yn yr holl gyfarfodydd cyhoeddus a drefnir, un ai drwy ddod i Aberystwyth neu'n rhithiol (gan ddilyn y manylion yn y poster). Edrychwn ymlaen at y darlithoedd – gan y Parch.J. E. Wynne Davies ar ein cenhadaeth anghofiedig, i raddau helaeth yn Llydaw, a'r Parch. Marcus Robinson, fydd yn tynnu ar ei brofiad fel caplan yn y Llynges am flynyddoedd wrth gynnig bod caplaniaeth yn hanfodol i'r Eglwys.

Rydym wedi mwynhau trefnu ar gyfer y Gymanfa undydd hon gan ddilyn thema ein llywydd: 'A wyt ti'n dymuno cael dy wella?' (Ioan 5:6). Byddwn yn derbyn adrodiadau am holl waith yr enwad dros y flwyddyn a aeth heibio, ond yn cyfyngu'r adrodd a'r trafod i dair awr yn unig er mwyn inni gael rhoi pwyslais hyd at ddiwedd bore Mawrth ar ddathlu a diolch am ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth. Fel rhan o'r dathliadau hynny rydym yn ffodus iawn i gael manteisio ar gwmni grŵp cân a dawns Ny Ako o Madagasgcar gyda ni fel rhan o'u taith berfformio trwy Gymru. Ar ben hynny, ac fel rhan o'u taith i Eisteddfd Ryngwladol Llangollen, fe gawn ein bendithio â chwmni Côr Synod Mizoram o'r India yn ein haddoliad nos Lun.

Fe'ch gwahoddaf i ymuno â ni os allwch chi, a chymryd y cyfle hwn i gofio mewn gweddi am ein heglwys, ein gweinidogaeth, ein cenhadaeth a'n tystiolaeth ni i gyd, oll er gogoniant i'n Harglwydd Iesu Grist.

*Nan W. Powell-Davies*
*Ysgrifennydd Cyffredinol*

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## CYFARFODYDD CYHOEDDUS / RHITHIOL Y GYMANFA GYFFREDINOL

**8-9 Gorffennaf, 2024**
**Prifysgol Cymru Aberystwyth**
**(Ystafell Medrus / Neuadd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol)**

**Prynhawn Llun, 8 Gorffennaf**
**(Lleoliad: Neuadd yr Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol)**
**4:00pm**
**DARLITH Y GYMDEITHAS HANES**
**Darlithydd: Parchg J E Wynne Davies, BA, BD**
Testun: 'Y Genhadaeth Anghofiedig'

**Nos Lun, 8 Gorffennaf**
**(Lleoliad: Neuadd Gynadledda Medrus)**
**7:30pm**
**ADDOLIAD A DATHLIAD O'N GWEINIDOGAETH:**
**O dan arweiniad Mrs Jess Morgan a Mr Owain Edwards**

**Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf**
**(Lleoliad: Neuadd yr Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol)**
**8.45am**
**Addoliad dan arweiniad y Parch Owen Griffiths, Caplan y Gymanfa, a Grŵp Ny Ako, Madagascar**

**10:30am**
**Y DDARLITH DAVIES**
**Darlithydd: Parchg. Marcus Wyn Robinson, BD, *RN***
Testun: 'Caplaniaeth - Hanfodol i Fywyd yr Eglwys'

**Prynhawn dydd Mawrth, 9 Gorffennaf**
**4:30pm**
**GWASANAETH CYMUN A CHOFFÂD**
I Bregethu: Parchg. Rebecca Lalbiaksangi, MA, Cert.Th, Trefaldwyn

**YR HOLL GYFARFODYDD I'W CYNNAL YN DDWYIEITHOG AC YN RHITHIOL**
Cyfeirnod: 856 7051 8688   Passcode: 240117

# Her ŵyr i gofio 'mam-gu' anhygoel

cymorth cristnogol



Mae Iwan Williams, uwch-swyddog ymgysylltu cymunedol Prifysgol Bangor, yn ymgymryd â her uchelgeisiol er cof am ei fam-gu, Irene Williams, a fu'n gyfrifol am sefydlu llawer Pwyllgor Cymorth Cristnogol yng Nghymru.

Bydd Iwan, sy'n 41 oed, yn ceisio dringo i gopa tri o fynyddoedd uchaf Cymru – a hynny o fewn un diwrnod. Ddydd Mawrth, 2 Gorffennaf, bydd yn dringo Pen y Fan, Powys – copa uchaf de Cymru; Cadair Idris ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac yna'r Wyddfa – copa uchaf Cymru.

'Rwyf wedi bod i fyny'r Wyddfa ddwywaith,' eglura Iwan. 'Dw i'n weddol ffit, ac wedi cymryd rhan mewn llawer ras a marathon. Roeddwn eisiau gwneud rhywbeth gwahanol er mwyn anrhydeddu Mam-gu a chodi arian er cof amdani. Roedd hi'n wraig anhygoel ac fe wnaeth hi fy ysbrydoli i a llawer o bobl eraill. Mae codi arian i Gymorth Cristnogol yn gwneud synnwyr, felly, wrth gofio pa mor angerddol oedd Mam-gu dros Gymorth Cristnogol am ddegawdau.'

Yn wreiddiol o Landysul, yn ystod ei blentyndod fe dreuliodd Iwan lawer iawn o amser gyda'i fam-gu a'i dad-cu, Irene a Cyril, yng Nghwm-ann. Roeddent yn adnabyddus iawn yn yr ardal: Cyril yn weinidog yn Eglwys Annibynnol y Priordy, Caerfyrddin, yn y 1950au ac Irene yn arloesi ac yn paratoi'r ffordd ar gyfer cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yng Nghymru.

Ceir llawer o hanes y cyfnod yn llyfr Dewi Lloyd Lewis, Ysgrifennydd Cenedlaethol cyntaf Cymorth Cristnogol yng Nghymru, sef *Beginnings*. Yn ôl y gyfrol, pan oedd yn byw yng Nghaerfyrddin, 'trefnodd Irene y casgliad drws-i-ddrws cyntaf yn y dref a chodi £64. Defnyddiwyd tuniau i gasglu gan nad oedd blychau casglu nac amlenni ar gael bryd hynny.'

Symudodd i Gaerdydd yn 1958 a sefydlu gyda dau arall gangen Cymorth Cristnogol. Roedd yr ystafell fyw ar ffordd St Isan yn cael ei disgrifio fel *nerve centre* ar gyfer Cymorth Cristnogol. Ar un achlysur cyrhaeddodd criw o ferched Gapel Tabernacl, yr Ais, yn barod i werthu cacennau cri o garafán ar y pafin. Yn anffodus roedd drws y garafán yn wynebu reilings y capel! Casglodd Mam-gu'r dynion ynghyd a gofyn i'r heddlu stopio'r traffig er mwyn troi'r garafán rownd i wynebu'r cwsmeriaid eiddgar. Yn ystod ei bywyd, a hithau'n Gadeirydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbedr Pont Steffan am 18 o flynyddoedd, llwyddodd i godi miliynau ar gyfer prosiectau oedd yn cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol.

Meddai Iwan, 'Roedd gwaith Cyril fel Athro Astudiaethau Crefyddol yn eu harwain i deithio'n fyd-eang ac roedd ganddynt ddiddordeb mawr mewn materion rhyngwladol.'

'Ar un adeg, byddai eu cartref fel canolfan answyddogol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol oedd yn astudio yn Llanbed,' eglurodd Iwan gyda gwên. 'Os oeddech chi'n fyfyriwr rhyngwladol yn Llanbed yn yr 80au a'r 90au, mae yna siawns dda eich bod wedi cael croeso yng nghartref Mam-gu a Dad-cu. Roeddwn yn aml yn cyfarfod myfyrwyr o Asia, Affrica a Gogledd America yn y tŷ, ac roedd llawer ohonyn nhw wedi cadw mewn cysylltiad â Mam-gu hyd y diwedd.'

Ar ôl iddi golli Cyril ugain mlynedd yn ôl, parhaodd Irene i fyw yn annibynnol hyd at ei phen-blwydd yn 100 oed, cyn symud i gartref gofal. Yn mis Ionawr eleni, bu farw yn 102 oed.

'Roedd hi'n benderfynol ac yn llawn enaid,' ychwanegodd Iwan. 'Gwraig anhygoel a gafodd fywyd anghredadwy. ... Rhoddodd Irene fywyd o wasanaeth i Gymorth Cristnogol. Roedd hi'n wraig i weinidog ac Athro ac yn llawer, llawer mwy. Pwy a ŵyr pa yrfa y byddai wedi llwyddo ynddi pe bai'n gyfnod gwahanol.

'Roedd ganddi ddiddordeb brwd mewn materion cartref a rhyngwladol, ac yn medru trafod unrhyw beth: byddai'n bosib trafod y byd gyda hi drwy'r dydd. Pobl yn cydweithio ar draws ffiniau o bob math – gwleidyddol, ieithyddol, crefyddol – dyna oedd ei dyhead.

'A beth am y profiadau bywyd gafodd hi. Nid llawer sydd wedi cyfarfod yr Archesgob Desmond Tutu, ddwywaith, na Martin Niemöller, y diwinydd oedd yn gwrthwynebu Hitler. Croesawodd fynach Bwdaidd, y Bendigaid Feistr Chin Kung, i'w chartref; treuliodd un gaeaf yn teithio o amgylch India; teithiodd i Korea gyda Dad-cu; a bu'n ymweld â Chiwba a De Affrica gyda'i ffrind o'r Cenhedloedd Unedig.

'Hoffwn feddwl y byddai wrth ei bodd fy mod yn gwneud rhywbeth ar gyfer achos oedd mor agos at ei chalon.'


Mae Iwan wedi codi £520 o'i darged o £750 yn barod. I gefnogi Iwan a gwaith Cymorth Cristnogol, ewch i'r dudalen hon, os gwelwch yn dda: https://www.justgiving.com/page/iwan-williams-trichopacymru2024.



Iwan (ar y chwith) gydag Irene

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 30**
**Cenhadaeth ar y traeth**

### Gweddi
Arglwydd y tymhorau oll, diolchwn am yr haf a'r hwyl sy'n brofiad i lawer. Mwynhawn y cyfleoedd i ymlacio, ac wrth ymweld ag ambell draeth diolchwn am y bobl sy'n defnyddio'u hamser rhydd i gynnal cenhadaeth i blant ar y traethau ac sy'n gweld cyfleoedd newydd i sôn am Iesu. Gweddïwn y daw cyfle i ni sôn am Iesu wrth eraill, ac y byddwn yn barod i siarad amdanat yn ddidwyll ac yn agored, pa mor syml bynnag fo ein stori. Amen.

### Cyflwyniad
Un o ddarlleniadau hyfryd Llyfr yr Actau yw'r un lle mae Paul yn cyrraedd Philipi ac yn penderfynu mynd i lawr i gyfeiriad yr afon yn y dybiaeth y gallai gyfarfod â phobl yn hamddena. Pwy ddaeth yno ond Lydia, a hi oedd y gyntaf o nifer a wrandawodd ar ei dystiolaeth ac a ddaeth yn Gristion. Yn yr un ffordd, ceir darlleniadau lle roedd Iesu yn mynd ar ei daith ac yn cyfarfod â rhywun sy'n galw arno neu'n dal ei sylw. Nid oes cynllun penodol, ond bod y cyfleoedd hyn wedi dod â phobl ag anghenion penodol ato, gan gynnig llwyfan i wers neu wyrth. Mae cenhadaeth yr eglwys o hyd yn gofyn am feddwl ymlaen llaw a gweddïo am arweiniad Duw. Un o ryfeddodau stori'r eglwys yn ei chenhadaeth yw bod yr annisgwyl yn digwydd. Ni ddylai unrhyw un dybied bod y cyfan yn dibynnu arno ef neu hi. Yn hanes Philip a'r eunuch (Actau 8), daw cyfle i rannu stori Iesu sy'n arwain at dröedigaeth. Pwy a ŵyr beth fydd y cyfle a ddaw i'n rhan nesaf? Mae gofyn i'r Cristion fod yn barod gyda'i stori am Iesu ac am ei ffydd ei hun!

### Myfyrdod
Bydd rhai eglwysi'n teimlo ar eu calon i gynnal gweithgaredd ar y traeth yn ystod yr haf. Mwy na thebyg y gwelodd amryw o'n plith griw o bobl yn denu sylw plant a chynnal gweithgaredd hwyliog a cherddorol. Bydd rhai fel eglwys nid nepell o Benarth yn cynnal sesiwn ar draeth y Barri tra bydd eglwysi eraill yn teithio'n bell ac yn defnyddio gwyliau personol fel amser i hyrwyddo cenhadaeth traeth.

Pa fath o bobl sy'n debygol o wneud hyn a pha fath o gynulleidfa y maent yn gobeithio'i denu? Cefais gyfle'n ddiweddar i weld hyn mewn llefydd fel Saundersfoot, Sir Benfro, a Benllech, Ynys Môn, a sylwais fod pobl o bob oed yn rhan o'r tîm – boed yn arddegwyr neu'n bobl o oed ymddeol. Byddant yn amrywio o ran eu doniau: rhai yn arwain y canu, eraill yn trefnu gemau, rhai yno fel cefnogwyr hwyliog – pawb yn gweld eu gwaith ac yn bwrw iddi. Nid oedd y rhai a welais yn broffesiynol neu wedi derbyn hyfforddiant arbennig, dim ond eu bod â ffydd ddidwyll, amser ac ewyllys i ymroi i'r tasgau ac yn barod i fod yn rhan o'r tîm. Nid oes arwydd eu bod yn disgwyl unrhyw beth, ond yn falch o weld plant a phobl ifanc yn mwynhau eu hunain wrth glywed am Iesu fel ffrind plant bach ac yn dweud rhywbeth perthnasol am fywyd. Nid oes disgwyl i'w heglwys hwy weld cynnydd yn nifer y rhai sy'n mynychu, ond dyfalwn fod aelodau'r tîm yn teimlo bendith wrth wneud ac yn dychwelyd adref wedi derbyn llawer mwy na'r hyn roeddent wedi ei roi. Diolchwn i Dduw am y bobl hyn, gan weddïo bod y deyrnas yn cynyddu rywfodd, rywle, heb ein bod yn mynd i wybod ble mae'r had yn disgyn na pha fesur y cynhaeaf.

### Gweddi
Nefol Dad, diolch am bob cenhadaeth, beth bynnag ei chyfrwng, a heddiw dathlwn ymdrechion y bobl sy'n rhoi o'u hamser rhydd i gynnal cenhadaeth ar y traethau. Boed i'r ifanc a ddysgodd rywbeth am Iesu ddymuno clywed mwy, ac y bydd y gân a ddysgwyd ganddynt yn aros yn eu cof a'u calon. Amen.

### Cwestiynau i'w ystyried
1. Pam fyddai Paul wedi mynd lawr at lan yr afon i chwilio am rywrai i wrando arno?
2. Term lled newydd yng Nghymru yw 'gweinidogaeth arloesol' neu 'pioneer ministry', sef mynd at y man lle bydd pobl yn cyfarfod a chwilio am gynulleidfa. Ble allai pobl ymgynnull yn eich ardal chi, a beth fyddai'n dal eu sylw?
3. Sut berson oedd Lydia cyn iddi glywed Paul yn siarad? Beth tybed a'i denodd hi i wrando?
4. Rhannwch â'ch grŵp eich atgof cynharaf chi o sylweddoli bod gwrando ar dystiolaeth person arall yn sôn am Iesu yn ddifyr ac yn berthnasol i chi.
5. Pa brofiad ysbrydol a gawsoch y gallech ei rannu â pherson di-ffydd?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 30 Mehefin, am 7:30yh – Uchafbwyntiau 1**
Ymunwch â Lisa Gwilym i fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres, yn cynnwys sgyrsiau difyr gyda'r cyfansoddwr Gareth Glyn a'r Parchedig Ddoctor Rosa Hunt, a thaith i ddysgu mwy am olion crefyddol gogledd Sir Benfro. A chawn fwynhau canu mawl ysbrydoledig o bob cwr o Gymru.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 30 Mehefin, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Karl Davies

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 30 Mehefin, am 12yp**
Oedfa dan ofal Rhun ap Robert, Bro Enlli

# O'r galon



### Beth ddywed ein calon am gariad?

### Y galon fel gardd

'Gardd wedi ei chau i mewn yw fy chwaer a'm priodferch, gardd wedi ei chau i mewn, ffynnon wedi ei selio.' (Caniad Solomon 4:12)

Dychmygwch am funud fod eich calon fel gardd. Sut olwg sydd arni? A yw popeth yn cael tyfu'n wyllt yno, ynteu a oes rhyw gymaint o drefnu, tocio a phlannu'n digwydd? A yw'n hardd, yn ffrwythlon, ynteu'n fieri a chwyn i gyd?

Af fi ddim â'r trosiad yn rhy bell, gan fod buddiannau gardd wyllt yn cael eu hargymell i ni byth a hefyd y dyddiau hyn!

Yr hyn rwyf am i ni ei ystyried yw fod gennym fesur o reolaeth dros yr hyn a adawn i dyfu yng ngardd ein calon – boed hynny'n deimladau a syniadau negyddol amdanom ein hunain, ein sefyllfa neu am eraill. Neu, fel y mae Paul yn annog y Philipiaid: 'Bellach, gyfeillion, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyfiawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, **myfyriwch ar y pethau hyn**.' (Philipiaid 4:8)

Mae'r hyn a ddywed wrth y Rhufeiniaid am adnewyddu ein meddwl yn debyg (Rhufeiniaid 12:1–3). Y teclyn garddio y mae ar y galon ei angen fwyaf yw edifeirwch, trwy'r hyn y gallwn fod yn chwynnu'r tyfiant anffrwythlon ac yn clirio tir da i blannu'r gwirionedd yn ei le. Rhaid i ni sylweddoli bod edifeirwch yn gymaint o arf adnewyddol ag ydyw o deimlo'i bod yn ddrwg gennym ('difaru').

Ond rhaid bod yr un mor bwrpasol wedyn am blannu gwirionedd Duw amdanom yn ein sefyllfa, yn lle'r chwyn diffrwyth sy'n tagu'r ardd.

### Ble i gychwyn a sut mae chwynnu?

Dyma ambell gwestiwn i'ch helpu i ganfod beth sy'n tyfu yn eich gardd (gellid ychwanegu atyn nhw, dwi'n siŵr):

Beth ddaw i'ch meddwl pan ymlonyddwch, heb ddim allanol i ddenu eich sylw?

Pa deimladau negyddol fyddwch chi'n baglu drostynt yn aml?

Pa ddywediadau negyddol rydych yn eu hailadrodd amdanoch eich hun, neu am Dduw?

Beth ddywed y rhai o'ch cwmpas amdanoch?

Rhof enghraifft bersonol i chi. Roeddwn yn teimlo yn fy nghalon ac yn mynegi hynny'n gyson nad oedd gennyf ffrindiau, ac na fyddai neb y dewis fy nghwmni. Rwy'n siŵr y gall pawb sy'n fy adnabod wybod nad yw hynny'n wir, ond i mi roedd yn teimlo'n wir. Ac, wrth gwrs, anodd credu wedyn fod gan Dduw ddiddordeb ynof.

Yna un bore, dyma'r gwirionedd yn fy nharo'n ddisymwrth fod un wedi fy newis dros bawb arall ac wedi rhoi ei hun i mi mewn priodas, a hynny ers dros 25 mlynedd!

Wrth gwrs roeddwn i'n teimlo'n dwp, ond fe wyddwn mai rhodd o wirionedd gan yr Arglwydd oedd hyn i mi. Yn y fan a'r lle ymddiheurais i'm gwraig, raslon a llawn amynedd, ac edifarhau i'r Arglwydd am gredu'r ffasiwn anwiredd ers pan oeddwn yn blentyn. Ac yna, wedi clirio'r llain yma o dir yn fy nghalon, dyma ofyn i Iesu blannu ei wirionedd amdanaf yn ei le (Mae'n bwysig gwneud hyn; gweler Luc 11:24–6).

### Calon yn llawn cariad

'Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac wedi anfon ei Fab i fod yn aberth cymod dros ein pechodau.' (1 Ioan 4:10)

Dyma sydd raid i mi fyfyrio arno'n gyson i ddiogelu'r tyfiant da a chadw tir y galon yn glir o chwyn – nid y ffaith fy mod yn teimlo 'mod i'n ei garu neu fy mod yn deilwng mewn unrhyw fodd. Na, yn hytrach ei fod wedi fy ngharu cyn fy mod, ac wedi anfon Iesu, ei Fab ei hun, i'm prynu iddo'i hun.

Ac yn ymarferol iawn mae gennym wyliau cyson yn ein calendr, i'n hatgoffa o hyn. Daw'r Nadolig a'r neges, 'Do, carodd Duw y byd', a'r Pasg yn ein hatgoffa o ddyfnder y cariad tragwyddol. Daw'r Ysbryd Glân gyda'r Pentecost i ddwyn llawnder y gwirionedd i ni, ac yna ceir gwyliau'r cynhaeaf sy'n llawn diolchgarwch am y cariad.

Mwynhewch ffrwythlondeb gardd calon sy'n llawn o'i wirionedd.

Y tro nesaf, efallai y soniaf mwy pa wirioneddau sydd i'w plannu yn ein gardd.

*Hywel Rhys Edwards*
*Y Parc*

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Bro'r Glannau, Henaduriaeth Dyffryn Clwyd
## Gweithiwr Cenhadol Cymunedol

Mae Gofalaeth Bro'r Glannau yn cynnwys wyth cynulleidfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac un Eglwys Fethodistaidd yn ymestyn o Gaerwys i Fetws-yn-Rhos. Ein bwriad yw estyn allan i'r gymuned leol mewn ffyrdd gwahanol, newydd a chreadigol. Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a gweithgar i fod â rhan flaenllaw yng ngwaith plant, ieuenctid a theuluoedd fel Gweithiwr Cenhadol Cymunedol.

**Oriau:** 14 awr yr wythnos.
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 22–26 (£25,962–£28,297) ar raddfa cyflog EBC neu uwch, yn dibynnu ar lefel cymwysterau a phrofiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
**Lleoliad:** Byddwch yn gweithio gartref; fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a'r iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch gyda:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru Ffôn: 02920 627465

**Dyddiad cau : 12 Gorffenaf 2024, 4 o'r gloch**

# Mor bell

Mae'r ymwelwyr yn heidio i Gymru eleni eto. Wêl neb fai arnyn nhw wrth reswm, o gofio prydferthwch ein gwlad a chyfoeth ei diwylliant a'i hanes. Ac yn ddiweddar, cyhoeddodd Croeso Cymru adroddiad sy'n nodi nid yn unig y rhesymau a roddwyd gan bobl dros ddod yma ond hefyd dri rheswm ar ddeg a roddwyd gan eraill dros beidio â dod. Wnaf fi ddim eich diflasu â'r rhestr gyflawn, ond mi wnes i wenu o weld mai un rheswm a nodwyd dros beidio â dod i Gymru oedd 'ei bod yn rhy bell'.

Rhy bell o ble? O Lerpwl? O Gaeredin? O Baris? Does wybod, gan nad yw'r adroddiad yn dweud. Glywsoch chi'r stori am wraig o ben draw Llŷn a ddywedodd, wedi dychwelyd o wyliau yn Llundain, mai unig ddrwg y ddinas honno oedd 'ei bod yn bell o bob man'? Gwir neu beidio, mae'n stori dda. Ac fel yr arolwg, mae'n dangos bod y syniad o bellter yn ddibynnol ar ble rydym yn cychwyn. Wedi'r cwbl, mae pobman yn bell o rywle.

Gall Duw fod yn bell iawn. Wrth gwrs hynny, o gychwyn o ryw fan. Mae Duw'n sicr yn bell os ydym yn cychwyn efo'n dealltwriaeth a'n gwybodaeth ein hunain. Beth neu pwy yw Duw? Sut un ydyw? Oes yna hyd yn oed y fath beth â Duw? Sut allwn ni, feidrolion gwan, ddechrau ei ddisgrifio na'i egluro? Ond o gychwyn o fan arall, mae Duw'n agos iawn. Rhan o'r gyfrinach yw cychwyn gyda'r hyn a ddywed Duw amdano'i hun yn y Beibl, yr hyn a ddangosodd i ni trwy Iesu Grist. O gychwyn yn y man cywir mae Duw'n agos, a'i gariad a'i drugaredd a'i ddaioni a'i ras yn amlwg.

Ac yn rhyfedd iawn, rhan o'r gyfrinach hefyd yw ein bod yn cychwyn trwy gydnabod y pellter sydd rhyngom a Duw. Y mae Ef yn bell am ein bod ni mor bell o'r hyn a ddylem fod. Mae Duw'n bell am ein bod ni wedi cefnu arno ac wedi crwydro oddi wrtho. Mae yna fwlch mawr rhyngom a Duw, ac mae unrhyw gymdeithas ag Ef wedi ei chwalu. Mor bwysig yw cychwyn yn y man iawn trwy gydnabod hynny. Oherwydd cyhyd ag y mynnwn ni fod popeth yn iawn, a'n bod – fwy neu lai fel yr ydym – yn ddigon da i'r Brenin Mawr, bydd y pellter yn parhau. Ond o'i gydnabod, mae gobaith y gwelwn fod Duw trwy Iesu Grist wedi cau'r bwlch ac wedi dod yn agos, agos atom.

*John Pritchard*
*Llanberis*

(O *Llais Aled*, 2 Mehefin 2024)

Mae Rhun Dafydd wedi bod yn Gadeirydd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru yn ystod y tair blynedd diwethaf. Wrth gamu o'r gadeiryddiaeth, fe rannodd y sylwadau hyn. Diolch iddo am ei waith dros y tair blynedd diwethaf.

# Mewn Heddwch

Dwi wedi bod yn gadeirydd ar Gymdeithas y Cymod ers tair blynedd ac mae nawr yn gyfle i rywun arall gymryd yr awenau. Dwi'n mawr obeithio fy mod wedi gallu gwneud gwahaniaeth i gymodi a heddychiaeth yn ystod fy nghadeiryddiaeth a bod proffil y mudiad wedi codi ers hynny.

Mae yna sawl uchafbwynt yn ystod y cyfnod, ond mae'n anodd meddwl am y rhain wrth weld y byd yn plymio i ddyfnderoedd tywyll iawn. Ac mae'r rheswm dros hynny'n amlwg iawn: cynnydd mewn rhaniadau sy'n achosi gwrthdaro a rhyfel. Mae'r neges ein bod yn fwy tebyg i'n gilydd na'r gwahaniaethau rhyngom yn dal yr un mor bwysig.

Ond beth sy'n wirioneddol y tu ôl i hynny ac sydd wedi ei amlygu yn fwy fyth yn ddiweddar yw effaith y diwydiant arfau ar ddioddefaint. Arian a thrachwant canran fechan o bobl yw'r rheswm tu ôl i'r rhan fwyaf o ryfeloedd sy'n digwydd heddiw. Ac fel y gwyddom, pobl gyffredin a diniwed sy'n bypedau yn hyn i gyd. Dwi'n meddwl ei bod yn ddigon hawdd i ni feddwl am ddioddefaint y bobl yma fel un sy'n ddigon pell fel nad oes raid i ni ofidio amdano. Ond, ai dyna rydym ei eisiau? Mae rhyfel wastad yn cael ei weld fel gwrthdaro rhwng dwy ochr. Ond onid yw'n bosib gwrthod unrhyw fath o drais a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ddinasyddion rhyngwladol sydd eisiau gweld cyfiawnder i bawb?

Esiampl euraid sy'n dangos nad oes neb yn ennill mewn rhyfel yw'r ffordd y mae cyn-filwyr yn cael eu trin. Er yr holl siarad gan Lywodraeth Prydain am eu haberth, mae miloedd ohonynt yn cael eu hanghofio o fewn cymdeithas. Mae canran uwch o gyn-filwyr yn profi tlodi a phroblemau iechyd meddwl na'r boblogaeth gyffredinol. Mae oddeutu 11,000 o gyn-filwyr yn ddigartref, sy'n llai na nifer y tai gwag sydd dan berchnogaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn. Dyma ddangosydd arall sut mae rhyfel yn troi pobl yn rhif yn hytrach nag yn gymydog.

Dwi wedi'i chael yn anodd iawn esbonio ar adegau beth yw heddychiaeth a chymodi. Ac mae'n gallu bod yn fater personol i bob unigolyn. Yn anffodus, mae gwrthdaro yn ein natur ddynol, ond mae cymodi'n golygu ein bod yn medru datrys gwrthdaro'n heddychlon.

Nid mater i'w drafod yn ystod gwrthdaro yn unig yw heddwch. Pam mai dim ond yn ystod adegau o drais digynsail y mae arweinwyr byd yn rhoi sylw i heddwch? Proses yw heddwch, nid canlyniad y dylem edrych arno fel arf i osgoi rhyfel. Mae'n bryd buddsoddi mewn heddwch. Dychmygwch faint o newid y gallwn ei wneud os byddwn yn buddsoddi dim ond canran o wariant ac ymdrech dros ryfel ar gymodi.

*Mewn heddwch,*
*Rhun Dafydd*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru